# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 9 Rhagfyr 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

4 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

### *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad manwl o gyfran yr anfonebau a ddaeth i law Llywodraeth Cynulliad Cymru am nwyddau neu wasanaethau sydd wedi cael eu talu cyn pen pedwar diwrnod ar ddeg, gan roi ffigurau misol ar gyfer y tair blynedd diwethaf. (WAQ56849)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Nid ydym yn casglu manylion am anfonebau a dalwyd o fewn 14 diwrnod. Fodd bynnag, rydym yn casglu ac yn cyhoeddi gwybodaeth am anfonebau a dalwyd o fewn 10 diwrnod. Cyflwynwyd y targed o 10 diwrnod yn 2008 gan Lywodraeth y Cynulliad i helpu Gweinidogion Cymru i ddod drwy'r dirwasgiad ac mae'r ffigurau o 2008 hyd yma wedi'u hatodi.

**Ffigurau Perfformiad Talu 2008 – 2010**

| **2008** | **Cyfanswm y Taliadau** | **Cyfanswm Gwerth y Taliadau** | **Nifer y Taliadau Hwyr** | **Gwerth y Taliadau Hwyr** | **% a Dalwyd yn Hwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 10529 | 433,863,055.480 | 247 | 1,817,874.20 | 0.02 |
| Mai | 7471 | 48,694,931.43 | 104 | 500,679.57 | 1.39 |
| Mehefin | 12950 | 112,896,975.99 | 58 | 106,815.46 | 0.45 |
| Gorffennaf | 11158 | 80,391,455.02 | 108 | 170,896.51 | 0.97 |
| Awst | 9896 | 51,970,914.67 | 37 | 148,382.63 | 0.37 |
| Medi | 9487 | 53,183,238.83 | 38 | 226,620.32 | 0.40 |
| Hydref | 11205 | 54,354,443.39 | 588 | 113,140.99 | 5.25 |
| Tachwedd | 9824 | 63,579,624.99 | 120 | 329,920.78 | 1.22 |
| Rhagfyr | 9865 | 62,888,376.58 | 172 | 495,792.79 | 1.74 |
| Ionawr | 11431 | 57,268,943.46 | 65 | 73,057.13 | 0.57 |
| Chwefror | 10158 | 57,008,753.68 | 26 | 115,083.06 | 0.26 |
| Mawrth | 13709 | 191,750,804.61 | 100 | 281,969.61 | 0.73 |

| **2009** | **Cyfanswm y Taliadau** | **Cyfanswm Gwerth y Taliadau** | **Nifer y Taliadau Hwyr** | **Gwerth y Taliadau Hwyr** | **% a Dalwyd yn Hwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 11134 | -193,453,423.35 | 47 | -325,233.80 | 0.42 |
| Mai | 7820 | -103,966,751.09 | 42 | -95,877.44 | 0.54 |
| Mehefin | 12650 | -66,344,050.58 | 68 | -182,526.71 | 0.54 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf | 11404 | -159,248,906.05 | 39 | -126,872.13 | 0.34 |
| Awst | 8287 | -94,577,960.29 | 47 | -186,953.61 | 0.57 |
| Medi | 10726 | -130,018,846.39 | 41 | -58,613.04 | 0.38 |
| Hydref | 10901 | -546,696,792.16 | 57 | -938,797.45 | 0.52 |
| Tachwedd | 9948 | -453,028,061.06 | 48 | -861,067.43 | 0.48 |
| Rhagfyr | 9654 | -581,222,751.69 | 31 | -161,256.04 | 0.32 |
| Ionawr | 9733 | -481,454,386.17 | 43 | -28,202.83 | 0.44 |
| Chwefror | 9717 | -578,439,958.35 | 78 | -1,321,896.74 | 0.80 |
| Mawrth | 18519 | -669,056,906.92 | 154 | -678,752.33 | 0.83 |

| **2010** | **Cyfanswm y Taliadau** | **Cyfanswm Gwerth y Taliadau** | **Nifer y Taliadau Hwyr** | **Gwerth y Taliadau Hwyr** | **% a Dalwyd yn Hwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 8589 | -640,315,386.73 | 190 | -5,071,867.74 | 2.21 |
| Mai | 9153 | -873,849,317.24 | 298 | -743,675.11 | 3.26 |
| Mehefin | 14704 | -817,651,939.34 | 536 | -2,890,929.87 | 3.65 |
| Gorffennaf | 9187 | -854,951,963.98 | 530 | -2,222,664.48 | 5.77 |
| Awst | 8462 | -782,507,268.44 | 336 | -1,574,335.13 | 3.97 |
| Medi | 11638 | -838,316,080.85 | 442 | -1,296,355.68 | 3.80 |
| Hydref | 7589 | -835,444,074.30 | 245 | -1,079,818.99 | 3.23 |
| Tachwedd | 6787 | -836,764,897.69 | 109 | -550,064.11 | 1.61 |

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrth brynu neu ymrwymo i gytundebau hurbwrcasu ar gyfer fflyd ceir y Gweinidogion, yn pennu mai busnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ddylai ddarparu a gwasanaethu'r ceir. (WAQ56850)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Prynir cerbydau ar gyfer fflyd cerbydau swyddogol Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy Fframwaith Llywodraeth y DU Gyfan ar gyfer Prynu Cerbydau. Drwy ddefnyddio'r fframwaith hwn sicrhawyd gostyngiad o 25% ar y cerbydau a brynwyd yn 2009/10. Diwellir anghenion y fflyd ceir swyddogol o ran gwasanaethu a chynnal a chadw gan fusnesau yng Nghymru.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaethpwyd i ganfod defnydd i'r dyfodol ar gyfer safle cydrannau Bosch ym Mro Morgannwg. (WAQ56845)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

My officials attended the first Master Plan meeting held at the site on the 10 November. The meeting was arranged to consider development options for the future use of the Bosch owned site. Attendees included representatives from Bosch, Vale of Glamorgan Council and Bosch's nominated partners for design and marketing of the site. Discussions outlined Bosch's timeline for the preparation and closure of the site, current planning regulations, enquiries received to date and an update on initial work carried out by their design team on potential future uses. It was agreed that the Vale of Glamorgan would host a working group with Bosch's designers to consider and develop the proposals further.

The next Master Plan meeting is scheduled for February to consider the marketing launch and results from the working group. We will continue to explore with Bosch any future potential use of the site.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddynodi pa ymgynghoriad â'r gymuned sydd wedi'i gynnal gyda thrigolion y Fro ynghylch dyfodol y safle Bosch. (WAQ56848)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The site presently has planning consent for industrial use. The site is owned by Bosch, and any changes that may be proposed as a result of the Master Plans being undertaken by Bosch would necessitate a community consultation exercise as part of any planning application.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn)**: Pwy sy'n gyfrifol am bennu nifer y seddi wrth ailwampio ar gyfer fflyd Dosbarth 158 Trenau Arriva Cymru. (WAQ56852)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Trenau Arriva Cymru.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud i ddatblygu cynllun triniaeth yn y gymuned, er mwyn galluogi cleifion gyda Ffibrosis Systig i gael eu trin gartref. (WAQ56846)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y dylai gwasanaethau gael eu darparu mor lleol â phosibl, lle y bo'n ddiogel ac yn gynaliadwy i wneud hynny. Y saith Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am gynllunio a sicrhau gofal effeithiol ar gyfer pobl â ffibrosis systig. Maent yn gwneud hyn drwy eu gwaith ar y cyd ar Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

Yng Nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 30 Tachwedd, cymeradwywyd tri argymhelliad gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r Gwasanaethau Ffibrosis Systig a oedd yn cynnwys buddsoddi yng ngwasanaethau Ffibrosis Systig i Oedolion yn Ysbyty Llandoche (£0.095m yn 2010/11, £0.504m yn 2012), i gynyddu staff ymgynghorol, nyrsio a ffisiotherapi. O ganlyniad i hyn, gellir datblygu gwasanaethau gofal yn y

cartref, cynyddu lefelau staffio'r gwasanaeth presennol yng Nghaerdydd a rhannu gofal yn fwy â gwasanaethau lleol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Byrddau Iechyd Lleol o ran cyflawni amcanion yr ymgyrch Lost Without Words ar gyfer y rheini sy'n goroesi strôc. (WAQ56847)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Mae gwella gwasanaethau strôc yn dal i fod yn un o'm prif flaenoriaethau ar gyfer y GIG yng Nghymru. Rwyf yn cydnabod bod mynediad cyflym i therapi lleferydd ac iaith effeithiol yn dilyn strôc yn bwysig iawn a bod angen ei wella. Rydym yn gwneud gwelliannau o ran y cyfnod acíwt o ofal, a flaenoriaethwyd gennym, ac rydym yn datblygu proses ar gyfer monitro'r modd y darperir gwasanaethau adsefydlu tymor hwy effeithiol, sy'n cynnwys therapi lleferydd ac iaith.
Mae pob Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) yng Nghymru yn gyfrifol am asesu anghenion iechyd eu hardal benodol a darparu ar eu cyfer. Mae adsefydlu yn rhan annatod o'r pecyn gofal cyffredinol ac mae angen i Fyrddau Iechyd Lleol fapio llwybr cyfan y claf, sy'n cynnwys adsefydlu, fel rhan o'u cynlluniau gweithredu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â phob safon a tharged cenedlaethol ar gyfer strôc, erbyn 2015.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gefnogaeth y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chynnig i gynnal dyfodol gorsaf radio gymunedol 'Radio Maldwyn'. (WAQ56853)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Sefydlwyd Cronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru i gydnabod a chefnogi'r cyfraniad a wnaiff gorsafoedd radio cymunedol i'w cymunedau. Mae'r Gronfa wedi'i chreu i helpu gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi cael trwydded ddarlledu pum mlynedd gan Ofcom. Gorsaf radio fasnachol yw Radio Maldwyn ac felly ni fyddai'n gallu gwneud cais am arian o'r Gronfa Radio Cymunedol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion ynghylch faint o'r £7m a gyhoeddwyd ar gyfer graean ac atgyweirio tyllau yn y ffordd fydd pob awdurdod lleol yn ei gael, a rhoi dyddiad penodol ar gyfer dyrannu'r arian hwnnw. (WAQ56851)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Dyrennir y £7miliwn o arian grant yn ôl cyfrifiad mwyaf diweddar y Fformiwla Cyllid Cyfalaf Cyffredinol ar gyfer Ffyrdd a Thrafnidiaeth. Nodir symiau unigol o'r dyraniad yn nhabl 1 isod. Mae trefniadau yn cael eu gwneud i'r cyllid gael ei ddosbarthu cyn gynted â phosibl; y nod yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael y cyllid hwn cyn gwyliau'r Nadolig.

| Unitary Authorities | Allocation of funding for repair work on potholes and the purchase of road salt |
|---|---|
| Isle of Anglesey | 201,128 |

| | |
|---|---|
| Gwynedd | 402,632 |
| Conwy | 262,782 |
| Denbighshire | 277,819 |
| Flintshire | 360,526 |
| Wrexham | 253,759 |
| Powys | 509,398 |
| Ceredigion | 248,872 |
| Pembrokeshire | 331,579 |
| Carmarthenshire | 521,429 |
| Swansea | 447,368 |
| Neath Port Talbot | 270,677 |
| Bridgend | 295,113 |
| The Vale of Glamorgan | 283,835 |
| Rhondda Cynon Taf | 479,699 |
| Merthyr Tydfil | 78,195 |
| Caerphilly | 377,444 |
| Blaenau Gwent | 131,579 |
| Torfaen | 144,737 |
| Monmouthshire | 206,767 |
| Newport | 237,594 |
| Cardiff | 677,068 |
| **Total** | **7,000,000** |